



Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd:

Cynghorydd Perfformiad

Yn atebol i:

Cyfarwyddwr Cynorthwyol System Chwaraeon, Strategaeth a Gwasanaethau

Pwrpas y Swydd

Mae hon yn rôl sy'n gweithio ar "reng flaen" yr amgylchedd chwaraeon elitaidd llawn pwysau mawr. Byddwch yn darparu cefnogaeth â'i ffocws ar berfformiad i alluogi partneriaid i ddysgu a gwella'n barhaus. Mewn byd sy'n cael ei yrru gan dargedau, bydd gennych yr hyder, y sgiliau a'r ddisgyblaeth i gynnal y ffocws ar y prosesau a fydd yn cyflawni'r canlyniadau.

Byddwch yn gweithio gyda'r tîm rheolwyr perthnasoedd, arweinwyr yr Athrofa ac eraill i adnabod y meysydd gwelliant a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf ym meysydd buddsoddi blaenoriaeth perfformiad a llwyddiant, ac yn ymyrryd yn ôl yr angen.

Byddwch yn cefnogi ein partneriaid i allu archwilio, mynegi a datrys heriau a chyfleoedd perfformiad presennol ac yn y dyfodol. Bydd cyfyngiadau amser yn berthnasol i'ch rôl gydag unrhyw bartner, a bydd dros dro, felly bydd angen i chi fod yn eithriadol wrth feithrin perthnasoedd o ansawdd uchel yn gyflym, yn seiliedig ar ymddiriedaeth gyda'r cadernid i wrthsefyll heriau sylweddol a gwahaniaeth barn.

Gan weithredu fel ffrind beirniadol i'n partneriaid, a dylanwad cadarn ac uchel ei barch arnynt, byddwch yn sbarduno fforwm yr arweinwyr perfformiad i gyflawni newid mawr yn ein dull o ddatblygu athletwyr, o fewn chwaraeon a thrwy gydweithredu ar draws y sector.

Prif ddyletswyddau

- Arwain ac ysbrydoli partneriaid i weithredu'n foesegol ac yn gyfannol wrth ddatblygu athletwyr. Casglu, hyrwyddo a defnyddio gwell tystiolaeth yn y maes hwn.
- Datblygu perthnasoedd rhagorol, dibynadwy gan ddefnyddio arddulliau a dulliau cyfathrebu rhyngpersonol priodol gyda phartneriaid er mwyn cefnogi a herio uchelgeisiau strategol a sbarduno newid mawr.
- Cefnogi partneriaid i allu adnabod, mynegi a datrys heriau a chyfleoedd perfformiad sydd wedi'u diffinio'n dda ac edrych ar heriau a chyfleoedd perfformiad yn y dyfodol.
- Bod yn gyfforddus i reoli'r tensiynau sy'n deillio o anghytundeb a gwahaniaeth barn cryf. Bod â'r hyder i edrych ar y problemau sylfaenol i helpu pobl i ddeall a pharchu safbwyntiau ei gilydd.
- Sbarduno integreiddio a thrawsweithredu effeithiol gyda chyrrff rheoli cenedlaethol ar lefel Cymru a'r DU, Tîm Llwybr Perfformiad Athrofa Chwaraeon Lloegr, Cyfarwyddiaeth Perfformiad UK Sport a phartneriaid perthnasol eraill.
- Hysbysu a chefnogi cydweithwyr o bob rhan o Chwaraeon Cymru i ddatblygu dysgu allweddol, argymhellion polisi a goblygiadau o ran adnoddau ym meysydd buddsoddi blaenoriaeth perfformiad a llwyddiant, drwy wybodaeth a gesglir o weithio gyda phartneriaid.
- Gwneud defnydd priodol o wahanol fathau o dystiolaeth, data a gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau gweithredol ac fel sail i gyfeiriad strategol. Cefnogi partneriaid i ddeall ac ymateb i'w hanghenion gwybodaeth.
- Ar y cyd ag arweinwyr yr Athrofa, rheoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwyddoniaeth a meddygaeth a'u hintegreiddio'n effeithiol o fewn partneriaid er mwyn cael yr effaith orau bosib yn erbyn blaenoriaethau strategol Chwaraeon Cymru.
- Cyflawni cyfrifoldebau sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaeth rhagorol i Chwaraeon Cymru mewn perthynas â'n dyletswyddau statudol, gan gynnwys Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cydraddoldeb, Diogelwch Gwybodaeth, Rheoli Risg, Diogelu, Rheoliadau Ariannol ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Gweithio'n hyblyg, gan gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn, os yw hynny'n berthnasol i'r swydd ac yn briodol i'w graddfa.

Gwerthoedd Chwaraeon Cymru

Mae ein dull o weithredu i alluogi chwaraeon yng Nghymru i ffynnu yn esblygu. Rydym wedi ymrwymo i herio ein hunain yn barhaus i wneud y canlynol:

Dysgu Gyda'n Gilydd

Archwilio, profi ac adolygu yn gyson.

Cyflawni Gyda'n Gilydd

Rhannu canlyniadau, meithrin perthnasoedd agored a gonest, darparu adborth cadarn, gwella perfformiad yn gyson.

Dathlu Gyda'n Gilydd

Cydnabod ein llwyddiannau a rennir drwy bartneriaid effeithiol.

Drwy wneud y canlynol:

Gweithredu'n Ddidwyll

Deall a Pharchu diwylliant a gwerthoedd ein gilydd. Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ychwanegu Gwerth

Sicrhau'r gymysgedd orau bosib o gefnogaeth, her, buddsoddiad, sgiliau ac arbenigedd i gyflawni ein canlyniadau a rennir.

Annog Arloesi

Croesawu syniadau a dulliau gweithredu newydd a chefnogi uchelgais a meddwl o'r newydd. Peidio ag ofni teimlo'n anghyfforddus.

Manyleb y Person

	Gofynion Hanfodol	Gofynion Dymunol
Addysg:	Addysg hyd at lefel gradd (neu gyfatebol) Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth	Gradd mewn disgyblaeth gwyddoniaeth chwaraeon, meddygaeth chwaraeon, hyfforddiant neu addysgeg
Profiad:	Profiad o reoli perthnasoedd gan gynnwys dylanwadu ar dimau arweinyddiaeth, strategaethau partneriaid a dulliau gweithredu Profiad o gefnogi partneriaid i ddeall a mynegi'r heriau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt Dealltwriaeth o ddulliau gweithredu â'u ffocws ar yr unigolyn a gwerthfawrogiad o sut gellid defnyddio'r rhain mewn amgylchedd datblygu athletwyr Gwybodaeth am amrywiaeth o arferion o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'r gallu i gynhyrchu syniadau a all arwain at newid mesuradwy	Profiad o systemau ac amgylcheddau chwaraeon perfformiad uchel yng Nghymru a ledled y DU Profiad o weithio yn y sector chwaraeon ac mewn rhaglenni perfformio fel hyfforddwr, ymarferydd, arweinydd neu reolwr Gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion y rhai sy'n gweithio gydag athletwyr safon byd presennol a'r rhai sy'n paratoi athletwyr ar gyfer llwyddiant o safon byd yn y dyfodol Tystiolaeth o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddysgu, gwerthuso tystiolaeth a risg
Sgiliau, Doniau a Galluoedd:	Arwain ac ysbrydoli eraill, gan ennill parch gan gydweithwyr a phartneriaid a meithrin perthnasoedd cadarn i ddylanwadu ar welliant parhaus a sbarduno newid	Sgiliau dwyieithog neu amlieithog Yn gallu ystyried y defnydd gorau o gyllidebau a phobl yn erbyn

	<p>Ymrwymiad i ddysgu ac i gefnogi eraill i ddysgu – ffocws ar welliant nid ar 'gael pethau'n iawn'</p> <p>Dealltwriaeth o gymhlethdod, gallu delio ag amrywiaeth o sefyllfaoedd sy'n aml yn gymhleth a bod yn gyfforddus gyda bod heb ateb ar adegau</p> <p>Gallu trosi bwriad strategol yn ddarpariaeth weithredol a sefydlu prosiectau, olrhain ac adolygu cynnydd, a gweithredu dysgu ar gyfer yr effaith orau bosib</p> <p>Medrus iawn wrth roi a derbyn adborth gyda'r dewrder i weithredu gydag integriti bob amser</p> <p>Gallu addasu'n gyflym pan fydd blaenoriaethau'n newid ac addasu i sefyllfaoedd dan bwysau gan sicrhau rheolaeth dda</p> <p>Hyrwyddo rhannu gwybodaeth o fewn ei dîm ei hun a thu hwnt</p> <p>Y gallu i gyfathrebu'n ddarbwyllol a gyda dylanwad ar lefel uwch, ar lafar ac yn ysgrifenedig</p>	<p>blaenoriaethau strategol sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd</p> <p>Deall elfennau hanfodol timau perfformiad uchel ac yn gallu meithrin y rhain gan ddefnyddio sgiliau arwain effeithiol</p>
<p>Amgylchiadau Arbennig:</p>	<p>Y gallu i weithio'n hyblyg gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa arferol</p> <p>Y gallu i deithio yn ôl yr angen</p> <p>Arddull egniol, brwd a dymunol gyda'r hygredded a'r proffil i ennyn hyder a pharch partneriaid</p>	